Gwerthusiad Safle Amgylcheddol

Cyn unrhyw gynigion datblygu, dylid archwilio'r safle a'i gyd-destun yn yr ardal ar ffurf gwerthusiad safle. Bydd hyn yn galluogi rhestr o gyfyngiadau a chyfleoedd ar gyfer darpar ddatblygiadau.

Bydd gwerthusiad safle da'n darparu gwybodaeth werthfawr i ganiatáu i'r datblygiad gael ei gynllunio ar gyfer y safle a bydd yn debygol o leihau problemau a gwrthdaro'n hwyrach. Bydd hyn o fudd i unrhyw gyfarfodydd cyn ymgeisio a'r cyfnod cyflwyno cais cynllunio hefyd. Dylai gwerthusiad safle gynnwys y canlynol;

1 Lleoliad a chynllun

a Lefelau a chyfeiriad pelydriad yr haul.
b Cyflymdra a chyfeiriad y gwynt.
c Y potensial am systemau gwresogi/pwer cymunedol.
d Sefydlogrwydd a llygredd tir.
dd Lefelau o lygredd atmosfferaidd a lefelau swn o safleoedd cyfagos.
e Mynediad i gyfleusterau cymunedol a'u maint e.e. siopau, ysgolion a chyfleusterau hamdden (parciau, meysydd chwarae, canolfannau hamdden, ayb).

2 Cynllun Adeiladau

a Adeiladau presennol a strwythurau cysylltiedig a'r potensial i'w hailddefnyddio.

3 Cyflenwi a defnyddio ynni a dŵr

a Microhinsoddau, math o bridd, draeniad a thabl dwr.
b Isadeiledd gwasanaethau presennol (uwchben a dan y ddaear).

4 Rheoli Gwastraff

a Gallu cyfleusterau ailgylchu lleol.
b Llygredd sy'n ymwneud â'r datblygiad.

5 Cludiant a Mynediad

a Cludiant cyhoeddus sydd ar gael yn rhwydd.
b Llwybrau cerdded a beicio sy'n hawdd eu cyrraedd.

6 Hybu bywyd gwyllt ac adeiladu'n unol â gwahaniaethau lleol

a Diogelu nodweddion ffiniau presennol e.e. gwrychoedd a waliau cerrig.
b Asesu cyrsiau dwr, cyrff dwr a chynefinoedd cysylltiedig o fewn a ger y safle.
c Asesu cymeriad yr ardal gyfagos a phwysigrwydd y safle i'r ardal.
d Gwirio unrhyw ddiddordeb archeolegol neu hanesyddol yn a ger y safle, gan gynnwys gosodiad adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth.
dd Cadw golygfeydd pwysig.
e Gwirio presenoldeb rhwydweithiau glas a'u perthynas e.e. afonydd, nentydd, coedwigoedd, dolydd.

Sylwer ei bod yn bosibl y bydd angen gwybodaeth a/neu ddata ychwanegol ar Asesiad Effaith Amgylcheddol. Gofynnir i chi gysylltu â'r Adran Gynllunio ymlaen llaw i drafod y materion hyn.